Diogelwch eich busnes

Ar bob fferm ieir, ceir peryglon anweladwy i'r adar – ac i'ch elw. Gall clefydau ieir a bacteria sy'n gwenwyno bwyd ddod i mewn yn hawdd a lledaenu drwy eich haid.

Mae bioddiogelwch da yn hanfodol i ddiogelu eich adar. A ydych yn gwneud popeth posibl i gadw eich fferm yn lân ac yn fioddiogel?

Mae bioddiogelwch da yn talu ar ei ganfed. Mae'n helpu i:

- ddiogelu iechyd eich adar
- gwella eich elw
- lleihau costau rheoli clefydau
- diogelu eich iechyd chi ac iechyd eich gweithwyr
- diogelu iechyd y cyhoedd
- gwella hyder y cwsmer

Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

I archebu copïau ychwanegol o'r cyhoeddiad hwn neu gyhoeddiadau eraill a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth, cysylltwch ag Adran Gyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

ffôn	**0845 606 0667**
minicom	**0845 606 0678**
ffacs	**020 8867 3225**
e-bost	**foodstandards@eclogistics.co.uk**

www.food.gov.uk

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2004
Cynlluniwyd gan Hoop Associates
Argraffiad gan Belmont
Hawlfraint y goron 2004
Argraffwyd yn Lloegr 1k FSA/0879/0104

Ffermydd glanach Adar gwell

Cadw afiechydon a bacteria niweidiol allan

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Diogelu'r adar

- Dim ond ymwelwyr hanfodol a ddylai fynd i mewn i bob cwt ieir a dylech sicrhau bod ymwelwyr yn dilyn y rheolau glendid. Gallai pob ymweliad ddod â haint i'r fferm.
- Rhaid i bob gweithiwr ac ymwelydd olchi neu ddiheintio eu dwylo cyn ac ar ôl ymweld â phob cwt ieir.
- Gall esgidiau gario haint i mewn ac allan o'r cytiau ieir. Rhaid i bob gweithiwr wisgo esgidiau pwrpasol ar gyfer pob cwt ieir. Rhaid i ymwelwyr wisgo gorchuddion esgidiau glân gwahanol ym mhob cwt ieir.
- Rhaid i bob gweithiwr ac ymwelydd wisgo dillad amddiffynnol pan fyddant yn ymweld â'r adar.
- Cofiwch lanhau a diheintio offer cyn ac ar ôl ei ddefnyddio ym mhob cwt ieir.
- Cofiwch olchi a diheintio pob cwt ieir yn lân rhwng heidiau gwahanol, er mwyn atal haint rhag lledaenu i'r haid nesaf.

Diogelu pob cwt ieir

- Rhaid difa pla.
- Cadwch anifeiliaid, anifeiliaid anwes, adar gwyllt ac adar hela oddi wrth y tai a'r storfeydd bwyd. Gall pob un o'r anifeiliaid hyn gario haint a'i ledaenu.
- Cofiwch gael gwared â sbwriel ac adar marw yn y ffordd briodol, oherwydd efallai eu bod wedi eu heintio a gallant ddenu anifeiliaid gwyllt a phla.
- Cofiwch lanhau unrhyw fwyd a gaiff ei ollwng ar unwaith, oherwydd gall ddenu adar gwyllt, adar hela a phla.



Diogelu eich fferm

- Sicrhewch eich bod yn gwybod pwy sy'n dod i'r fferm a chadwch gofnod. Gall ymwelwyr a'u cerbydau gario haint i'r fferm.
- Cofiwch lanhau a diheintio unrhyw gerbyd neu drelar sy'n dod i'r fferm neu sy'n gadael y fferm (gan gynnwys y teiars).
- Cadwch y fferm gyfan yn lân ac yn daclus, yn arbennig yr ardal o amgylch y cytiau ieir, fel na chaiff unrhyw bla ei ddenu atynt gan ledaenu haint.